CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**06.04.23**
**7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** DAW (Cadeirydd);JAJ; IW; EO; GW; DP; LMH<br>**Ymddiheuriadau:** RY; EY; JOJ;TAJ; AR;RJ<br>**Yn mynychu:** SWR |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb |
| **3** | **Cofnodion 26.1.23**<br>*a)* Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 13.3.23 fel rhai cywir (JAJ/EO)<br>b) Materion yn Codi<br>Polisi'r Fynwent – cytunwyd i ychwanegu cyfeiriad at gladdu plant i'r Polisi. Clerc i ymchwilio ymhellach i'r elfen ffioedd a chyflwyno adolygiad i'r Is Bwyllfor Safleoedd nesaf.<br>Sefydlu Is Bwyllgorau - derbyniwyd cais gan LLMH i gael bod ar yr Is-Bwyllgor Cyllid. Cytunwyd i'r cais ar sail cefndir a gwybodaeth am osod cyllidebau yn y Cyngor Sir.<br>Stafell Cwb Snwcer – Adroddodd y Clerc am ebost dderbyniodd gan Dylan Edwards CSYM crynodeb isod:-<br>*Mae Adran Addysg awydd paratoi ysgol meithrin newydd yn yr ysgol ac mae haws gwneud hynna oddi fewn yr adeilad presennol na chreu estyniad arall. Ni ddylai hyn ymyrryd ar unrhyw ddefnydd cymunedol ychwanegol tu allan I oriau ysgol gyffredin. Bydd reoli'r adnodd cymunedol yn yr un modd ac ysgolion cymunedol arall yn uniongyrchol trwy law'r ysgol/llywodraethwyr trwy'r polisi gosod presennol. Bydd yr Adran Addsyg yn cysylltu i drafod cartrefu'r (neu waredu) y byrddau snwcer Bydd unrhyw benderfyniad o ran cyfrif ariannol Pwyllgor Rheoli'r Neuadd yn fater archwilwyr cyllidebau mewnol CSYM i'w benderfynu.* |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i lythyru gyda Cadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol (gyda chopi at swyddogion perthnasol CSYM) yn nodi bydd CC Llan yn symud y byrddau snwcer yn ystod gwyliau'r haf. Hefyd nodi'r pwysigrwydd o gynnwys CC Llan yn y trafodaethu ar ddosbarthiad yr arian yng nghoffrau cyfrif Pwyllgor Rheoli'r Neuadd gan fod CC Llan wedi chwarae rôl allweddol wrth sefydlu'r Ganolfan yn ei chychwyniad.<br><br>Mygiau dathlu'r Coroni – rhannodd y Clerc ddyluniad o'r mygiau dderbyniwyd trwy law JL gyda amcanbris hyblyg o £4 yr un. Cynnigiodd EO i archebu 150 ar gyfer plant cynradd y dalgylch eilwyd gan JAJ. Ni fu cynnig amgen. Dewisiodd LLMH atal ei phleidlais o gofio'r trafodaethau anodd wrth osod cylideb 2022/23 ym mis Ionawr eleni.<br><br>Cloc y Pentref – adroddod DAW/GW ar gyfarfod gyda Martin Butchers o gwmni Smiths of Derby. Nodwyd bod y cloc o werth hanesyddol ac ariannol sylweddol ac mewn cyflwr ardderchog. Bydd adroddiad opsiynau yn cael ei hanfon maes o law ar gyfer trafodaeth bellach.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu ferswin 06.04.23 |
| **4** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>Adolygu trefniadau gweinyddu cyfarfodydd – adroddodd y Cadeirydd ar hyfforddiant Cadeirio a fynychodd yn ddiweddar gan nodi rhai elfennau nad ydym yn ei gweithredu fel y dyliem. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y canlynol:-<br><br>• Dileu eitem Unrhyw Fater Arall<br>• Cadw eitem Materion trwy'r Gadair ond unrhyw fater i'w gyflwyno i'r Clerc **saith diwrnod cyn y cyfarfod** fel y gall gael ei nodi ar y Rhaglen. Bydd y Clerc yn anfon nodyn atgoffa at yr aelodau<br>• Pe cyfyd unrhyw fater brys hwn hefyd i'w anfon i'r Clerc cyn y cyfarfod.<br>• Ychwanegu eitem 'Adroddiad y Cynghorydd Sir'<br>• Ychwanegu eitem 'Gohebiaeth'<br><br>Nodwyd na ddylai cyfarfodydd fod yn hwy na 2 awr. Clerc a'r Cadeirydd i ail-edrych ar ffyrdd i hwyluso cyflwyniadau/adroddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol.<br><br>Diweddariad Cynllun Hyfforddiant – cyflwynwyd a derbyniwyd cynnwys y Cynllun. Nododd y Clerc bwysigrwydd mynychu sesiynau hyfforddiant a bod hyfforiant Cod Ymddygiad yn fandadol. Anogwyd y Cynghorwyr i roi gwybod i'r Clerc am unrhyw anghenion neilltuol hyffroddi er mwyn cadw'r gofrestr yn gyfredol pob amser. Cytunwyd y byddai gosod teledu yn yr Ystafell Gyfarfod yn hwyluso'r hyfforddi ar lein cyfredol a ddarperir gan Unllais Cymru. Clerc i drefnu gosod y Cynllun ar y Wefan yn unol a gofynion statudol.<br><br>Gwybodaeth Pwyllgor Safonnau – cyflwynwyd a derbyniwyd cynnwys y wybodaeth dderbyniwyd gan CSYM<br><br>Adolygu Polisi Iaith - cyflwynwyd a derbyniwyd cynnwys y Polisi. Clerc i drefnu ei osod ar y Wefan.<br><br>Gan na fu rhybudd o flaen llaw cytunwyd i'r aelodau gael gyflwyno materion |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | trwy'r Gadair (fel yn arferol) am y tro olaf,<br><br>**JAJ** – cais gan reolwraig Siop Llan i gael gosod bin sbwriel ger y siop. Clerc i holi CSYM ond nodwyd bod y llwybr/pafin yn gul.<br><br>- Tap dwr ym mynwent Peniel ddim yn gweithio – cytunodd GW/DAW i wirio a gofyn caniatad y teulu sydd wedi gosod y tap i gael mabwysiadu'r gofal i'r dyfodol .<br>- Arwydd ger Clorach wedi dod lawr eto. Clerc i holi Jackie Lewis Menter Mon.<br>- Tyllau yn y ffordd o Plas Coedana i Pencefn – rhoi hwn ar Cynllun Priffyrdd.<br>- Gosod mesurydd clyfar yn y Clwb Peldroed. Cytunwyd i'w osod ond i ail-drefnu'r dyddiad gosod ddaeth i law – Clerc i weithredu.<br><br>**DP –** dymunodd ddiolch i LLMH a holl staff CSYM am eu gwaith caled yn cefnogi gweithwyr ffatri 2 Sisters yn Llangefni.<br><br>**EO** – llinellau gwyn ar y fordd drwy'r pentref angen eu hail baentio – rhoi hyn ar Cynllun Gweithredu Priffyrdd.<br><br>Cylchredwyd fersiwn diweddaraf o'r Cynllun Gweithredu Priffyrdd eisoes trwy ebost. Cytunwyd i dderbyn y cynnig o ymweliad safle – Clerc i weithredu. |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Mawrth (wedi eu cymeradwyo gan y Cadeirydd)**<br>PWLB – ad-daliad benthyciad 2695.68<br>Wybone – 3 bocs bagia dal baw ci 181.16<br>S Roberts – ad-daliad am gost brysd trwshio boiler nwy y Caffi – Cwmni Valliant ddim yn cyflwyno infois dim ond taliad hefo cerdyn dros y ffôn 365.00<br>Cost trwydded parth i'r Wefan – ad-dalu i Mark Roberts 9.64<br><br>**Biliau cyfredol**:<br>Cyflog Clerc Ebrill & 1 taliad ZOOM (Wedi codi i £15.59) 506.28<br>Dwr Cymru:-<br>Clwb Bowlio 7.38<br>CPD Llan 37.97<br>Fynwent Gyhoeddus 17.44<br>Swyddfa Archwilio – cyfrifon 2020/21 327.00<br>Swyddfa Archwilio – cyfrifon 2021/22 267.00<br><br>**Taliadau Rhoddion Blynyddol**<br>Eisteddfod yr Urdd – Cylch Bro Alaw (EO/IW) 50.00<br>Yr Arwydd (JAJ/IW) 100.00<br>Hosbis Ty Gobaith – plant (JAJ/EO) 50.00<br>Noddi Taith Gerdded flynyddol Tomos Jones er budd Ymchwil Cancr; Amser i Siarad a Ward Alaw Ysbyty Gwynedd. Clerc i holi pwy fydd y cwmni cludo a cyflwyno siec yn uniongyrchol i'r cwmni tuag at cost y bysiau. 100.00<br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: £7340.13 |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | Cyfrif Cadw: £1441.64 |
| **6.** | **Materion Cynllunio**<br>**LUE/2023/4 Little Mountain View**. – cytunwyd i nodi ein hanfodlonrwydd gyda cheisiadau ôl-weithredol. Hefyd i geisio sicrhad na fydd mwy nag un carafan yn cael ei gosod ar y safle.<br>. |
| **7.** | **Materion Safleoedd**<br>**Cae Gofeb/Ysgol Haearn –** rhannodd JAJ daflen yn amlinellu gwariant Cronfa Ymddiriedolaeth Cae Gofeb. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'r Clerc a JAJ sicrhau eglurder gyda safle CC Llan fel Ymddiriedolwyr i'r gronfa hon a chronfa Ysgol Haearn. Nododd LLMH y gallasai Celyn Menai Prif Weithredwr Cymdeithas Elusennol Ynys Môn roi arweiniad.<br><br>**Unedau Tan y Foel –** nododd y Clerc bod gwaith clirio cwteri i'w wneud. Nododd hefyd bod cryn dipyn o sbwriel tu cefn i Unedau 4;5;6. Clerc i weithredu. Ni welwyd bod gwaith tocio coed i'w wneud.<br>Cytunodd LLMH i drefnu cyfarfod gyda swyddogion CSYM i drafod opsiynau posib ar y safe.<br><br>Cais trwy law y Clerc am gymorth i Grwp LlanNi gyflwyno cais cynllunio i newid defnydd y Siop Biano i fod yn hwb cymunedol. Cytunwyd mewn egwyddor i CC Llan gyflwyno unrhyw gais cynllunio perthnasol ar eu rhan. |
| | *Daeth y cyfarfod i ben am 10.00pm* |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com